# Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer yr henoed

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

## Rheoli eich dyfodol

Mae gan bob oedolyn yr hawl i reoli ei arian a'i faterion personol ei hun. Fodd bynnag, weithiau bydd gallu person i wneud hyn yn lleihau wrth iddo fynd yn hŷn. P'un a achosir hyn gan afiechyd, anabledd, neu ddamwain, mae nifer o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd i baratoi ar gyfer hyn.

Os yw hyn yn disgrifio eich sefyllfa chi, neu sefyllfa rhywun sy'n agos atoch, dylech ystyried cael cyngor cyfreithiol. Gall cyfreithiwr helpu drwy eich annog i roi trefn ar eich materion personol a nodi eich dymuniadau ar gyfer y dyfodol. Gall hyn gynnwys unrhyw beth o ysgrifennu ewyllys i ddewis rhywun i gymryd atwrneiaeth (awdurdod cyfreithiol i weithredu drosoch) dros eich materion ariannol, os bydd angen.

Gall hyn leihau'r baich ar berthnasau neu ofalwyr a allai fel arall ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau cymhleth ar eich rhan.

Pan nad oes digon o amser i gymryd y camau rhagofalus hyn, neu os yw person eisoes mewn sefyllfa lle na all ddelio â'i faterion ariannol ei hun ('analluog'), perthnasau'r person fydd angen cyngor fel arfer. O dan yr amgylchiadau hyn mae nifer o ddewisiadau ar gael. Un o'r dewisiadau hyn yw cysylltu â'r Llys Gwarchod, a all wneud trefniadau ar gyfer rheoli materion ariannol yr unigolyn dan sylw. Bydd cyfreithiwr yn dweud wrthych beth yw'r peth gorau i'w wneud yn eich achos chi.

## Dod o hyd i gyfreithiwr

Os nad oes gennych gyfreithiwr yn barod, ewch i'n gwefan yn www.lawsociety.org.uk/findasolicitor i chwilio am fanylion cyfreithwyr yn eich ardal, neu ffoniwch 0870 606 2555.

## Beth y bydd angen i'r cyfreithiwr ei wybod

Os mai chi yw'r cleient, bydd angen i'r cyfreithiwr wybod:

- p'un a ydych wedi gwneud ewyllys ai peidio;
- pwy fyddech yn ei ddewis i drafod eich materion personol, pe bai angen;
- pa asedau neu incwm sydd gennych;
- unrhyw ddymuniadau arbennig ynglŷn â sut yr hoffech i'ch eiddo neu eich asedau gael eu trafod;
- a oes gennych gyflwr meddygol arbennig (os felly, bydd angen iddo gael caniatâd i siarad â'ch meddyg).

Os ydych yn cael cyngor ar ran person oedrannus, bydd angen i'r cyfreithiwr yn gyntaf gadarnhau gyda'r unigolyn oedrannus ei fod am gyfarwyddo'r cyfreithiwr a chael y wybodaeth briodol. Unwaith y bydd y cyfreithiwr wedi cael cyfle i ystyried y wybodaeth, gall esbonio'r gwahanol ddewisiadau sydd ar gael i chi. Maent fel a ganlyn.

## Atwrneiaeth gyffredin

Mae hon yn ffordd gyfreithiol o roi pŵer i rywun arall reoli eich materion ariannol pan fydd yn anodd i chi eu rheoli eich hun, efallai oherwydd anabledd corfforol. Fel arfer rydych yn penodi rhywun yr ydych yn ymddiried ynddo, megis perthynas agos, ffrind, neu gyfreithiwr i weithredu fel eich 'atwrnai'. Ni all unrhyw un 'gymryd' atwrneiaeth. Rhaid i chi ei rhoi yn wirfoddol. Y rhoddwr fydd yn penderfynu pwy i'w benodi'n atwrnai, a gall ganslo'r trefniant unrhyw bryd.

Dim ond os ydych yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r trefniant y mae atwrneiaeth yn gymwys. Daw atwrneiaeth i ben os na fyddwch yn feddyliol yn gallu rheoli eich materion ariannol.

## Atwrneiaeth arhosol

Mae atwrneiaeth arhosol yn mynd gam ymhellach nag atwrneiaeth gyffredin, am ei bod yn parhau, hyd yn oed pan na fyddwch yn gallu rheoli eich materion personol eich hun - boed hynny dros dro neu'n barhaol, neu oherwydd afiechyd, anabledd neu ddamwain. Mae atwrneiaethau arhosol bellach wedi disodli unrhyw atwrneiaethau parhaus, er y gellir defnyddio atwrneiaethau parhaus dilys a wnaed cyn 1 Hydref 2007 o hyd. Ni ellir gwneud unrhyw atwrneiaethau parhaus newydd ar ôl 1 Hydref 2007.

Er mwyn i atwrneiaeth arhosol fod yn ddilys, rhaid i chi ddeall yn llawn oblygiadau'r trefniant ar yr adeg y caiff ei wneud. Bydd angen i ddarparwr tystysgrif lofnodi tystysgrif i ddweud eich bod yn ymwybodol o'r goblygiadau ac nad oes neb yn rhoi pwysau arnoch i wneud atwrneiaeth arhosol. (Mae darparwr tystysgrif yn rhywun sydd wedi eich adnabod ers dwy flynedd o leiaf, neu'n rhywun â sgiliau arbennig wrth asesu a yw unigolyn yn analluog.) Rhaid i'r atwrnai fod yn 18 oed o leiaf ac ni ddylai fod yn fethdalwr os caiff ei benodi i wneud penderfyniadau ynghylch eiddo ac arian rhywun. Gellir penodi mwy nag un atwrnai ar yr un pryd.

Ni all eich atwrnai ddechrau gwneud penderfyniadau ar eich rhan nes y bydd yr atwrneiaeth arhosol wedi'i chofrestru gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a fydd yn sicrhau bod eich atwrnai yn ymwybodol o'i ddyletswydd i weithredu er eich lles. Bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn codi tâl am yr atwrneiaeth arhosol.

**Penderfyniadau personol a phenderfyniadau lles**

Gellir gwneud atwrneiaeth arhosol ar wahân i roi i'ch atwrnai yr hawl i wneud penderfyniadau ynghylch eich lles personol a thriniaeth feddygol ar eich rhan os na fyddwch yn gallu gwneud y penderfyniadau hynny eich hun rywbryd yn y dyfodol.

Ymgynghori â chyfreithiwr yw'r ffordd orau o sicrhau bod atwrneiaeth arhosol yn cael ei sefydlu a'i chofrestru'n gywir, a'i bod er lles y rhoddwr.

## Y Llys Gwarchod

Os yw rhywun yn feddyliol analluog i wneud penderfyniad penodol ar adeg benodol, ac nad yw wedi gwneud atwrneiaeth arhosol, ac nad yw'r penderfyniad yn un y gellir ei wneud yn anffurfiol, gellir cyfeirio'r mater at y Llys Gwarchod. Gall y llys naill ai ddewis gwneud y penderfyniad ei hun ar ran yr unigolyn dan sylw, neu ddewis rhywun arall, a

# Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer yr henoed

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

elwir yn 'ddirprwy', i wneud y penderfyniad drosto. Pan fydd y llys yn penodi dirprwy i reoli eiddo a materion ariannol rhywun yn barhaol, fel arfer mae'n rhaid i'r dirprwy gadw cyfrifon, trefnu bond gwarant, a bod yn atebol i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'r Llys Gwarchod yn codi ffi gais untro, ac mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn codi ffi flynyddol i dalu cost goruchwylio gwaith y dirprwy.

## Penodedigaeth

Os yw person yn analluog a bod ganddo'r hawl i dderbyn pensiwn ymddeol neu fudd-daliadau eraill y wladwriaeth, gall yr Adran Gwaith a Phensiynau benodi rhywun i dderbyn y budd-daliadau ar ran yr unigolyn hwnnw. Gall y sawl a benodir fod yn berthynas, yn ffrind neu'n rhywun o'r proffesiynau gofalu (megis adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol). Gofynnir iddo ddarparu rhyw fath o brawf bod yr hawlydd yn analluog, megis tystysgrif meddyg. Ni chodir unrhyw dâl am y gwasanaeth hwn.

## Materion ariannol eraill

Gall cyfreithiwr roi cyngor ar amrywiaeth eang o faterion ariannol eraill sy'n effeithio ar bobl oedrannus. Er enghraifft:

- cynlluniau rhyddhau ecwiti, lle y gallwch ryddhau rhywfaint o'r cyfalaf sydd ynghlwm wrth eich cartref;
- trefniadau ariannu ar gyfer gofal hirdymor;
- cynllunio ystad trwy wneud ewyllys neu roi rhoddion gydol oes;
- pan fyddwch yn amau y gall rhywun neu rywrai fod yn manteisio ar berson oedrannus yn ariannol.

## Costau

Mae'r taliadau a godir yn amrywio o gyfreithiwr i gyfreithiwr ac mae'n dibynnu ar faint o gyngor neu gymorth sydd eu hangen. Cyn penderfynu ar gwmni cyfreithwyr penodol, dylech bob amser sicrhau bod eu swyddfeydd yn hygyrch, a chadarnhau faint o brofiad sydd gan y cwmni yn y maes penodol hwn o'r gyfraith. Byddwch hefyd am gael syniad da o'u costau, ond nid y gost fydd yr unig ystyriaeth. Mae yr un mor bwysig dod o hyd i gyfreithiwr y mae'n hawdd siarad ag ef, ac yr ydych yn deall ei gyngor.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni sy'n ymdrin â'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan gyfreithwyr. Rhestrir taflenni eraill yn y gyfres isod. Gofynnwch i'ch cyfreithiwr am gopi am ddim neu ffoniwch Gymdeithas y Cyfreithwyr ar 0870 3333 084.

Eich canllaw i wneud ewyllys
Eich canllaw i brynu cartref
Eich canllaw i gael ysgariad
Eich canllaw i broblemau yn y gwaith
Eich canllaw i sefydlu busnes
Eich canllaw i wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol
Eich canllaw i sefydlu cartref gyda'ch partner
Eich canllaw i roi eich eiddo ar rent
Eich canllaw i rentu cartref
Eich canllaw i ddefnyddio cyfreithiwr
Eich canllaw i brofiant
Eich canllaw i hawlio lloches

**Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras, mewn Braille, ar dâp sain ac ar CD. Os oes angen un o'r fersiynau hyn arnoch, cysylltwch â ni drwy e-bost yn accessibility@lawsociety.org.uk neu ffoniwch 0870 606 2555.**

**Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn gwahanol ieithoedd. Gallwch eu cael drwy fynd i'n gwefan, www.lawsociety.org.uk.**

Lexcel
Chwiliwch am Lexcel - nod rhagoriaeth

The Law Society 113 Chancery Lane London WC2A 1PL Ffôn: 020 7242 1222 www.lawsociety.org.uk

Er i ni wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, mae'r gyfraith yn newid o hyd ac yn effeithio ar bob person yn wahanol. Nid yw'r daflen hon felly yn lle cyngor penodol a roddir i chi yn bersonol ac ni fyddwn yn atebol i chi os byddwch yn dibynnu ar y daflen hon.

Dyluniwyd gan dmlmarketing.co.uk Fersiwn 3, 2007